**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a
Materion Gwledig

11 Hydref 2017

**Cyllid gan Lywodraeth Cymru i Ynni Sir Gâr Cyf**

Annwyl Mike,

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru **adroddiad** ar y cyllid a roddodd Llywodraeth Cymru i Ynni Sir Gâr Cyf ym mis Gorffennaf 2017. Tynnodd yr adroddiad sylw at nifer o bryderon llywodraethu'n ymwneud â'r cyllid a roddodd Llywodraeth Cymru i'r prosiect ar ffurf cymorth ariannol, ac mae'n gwneud pump o argymhellion i fynd i'r afael â'r rhain.

Er bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn credu bod yr argymhellion yn yr adroddiad wedi ymdrin â'r pryderon ynghylch y trefniadau llywodraethu, teimlwn y gallai'r adroddiad, a'r enghraifft y mae Ynni Sir Gâr Cyf yn ei chynnig yn fwy cyffredinol, fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, yn arbennig o ran lefel y rheoleiddio'n ymwneud â chronfeydd budd cymunedol.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565